Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health and Social Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Cadeiryddion y Byrddau Cynllunio Ardal
Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol
Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol

Cc: Arweinwyr Rhanbarthol y Byrddau Cynllunio Ardal
Timau Cynghori Rhanbarthol ar Gamddefnyddio Sylweddau

Dyddiad: 16 Chwefror 2017

Annwyl Gydweithiwr

**Diwygio Llywodraeth Leol : Cadernid ac adnewyddiad**

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Phapur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad' yn ddiweddar ar gyfer ymgynghori.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer cryfhau gweithio rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys cyfres o brofion a allai fod o gymorth wrth ystyried pa mor briodol yw'r swyddogaethau ar gyfer gweithio rhanbarthol. Cynigir y dylid cael patrwm daearyddol ar gyfer gweithio rhanbarthol a fframwaith ar gyfer gweithio is-ranbarthol. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi rôl gryfach i'r cynghorau a'r cynghorwyr, yn darparu fframwaith ar gyfer unrhyw benderfyniadau i uno'n wirfoddol, yn nodi rôl y cynghorau cymuned ac yn edrych ar opsiynau posibl ar gyfer etholiadau a phleidleisio.

Er bod yr awdurdodau cyfrifol o fewn y Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau yn ymestyn y tu draw i lywodraeth leol, byddem yn awyddus i glywed sut y gallai'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn gryfhau trefniadau llywodraethu'r Byrddau hefyd. Byddwn felly'n ddiolchgar pe byddech yn ystyried hyn yn eich ymateb cyffredinol.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **11 Ebrill 2017**. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad i'w weld yma:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad

Yn gywir

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Swyddfa Cyffordd Llandudno/
Llandudno Junction Office
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno/Llandudno Junction
LL31 9RZ

Ffôn • Tel 0300 062 5562
Stephen.Craddock@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.llyw.cymru



Tracey Breheny
Dirprwy Gyfarwyddwr
Yr Is-adran Camddefnyddio Sylweddau a Busnes y Llywodraeth a Busnes Corfforaethol